Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/08069/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref ynghylch deiseb P-05-914: Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer Pobl Anabl.

Mae'r ddogfen *General medical practice premises 2017*, sef y canllawiau dylunio ar gyfer eiddo newydd, yn nodi y dylai meddygon teulu a Byrddau Iechyd ystyried darpariaeth ar gyfer cleifion bariatric ac oedolion ag anableddau dysgu. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Bydd ar y cleifion hyn angen cyfleusterau sy'n ychwanegol i'r ddarpariaeth arferol. Ar gyfer y grwpiau hyn o gleifion, dylai'r cleient ystyried defnyddio un ystafell driniaeth gydag offer codi arbenigol, naill ai wedi'u hadeiladu'n rhan o strwythur yr adeilad neu wedi'u darparu fel peiriannau codi symudol. Dylai'r ystafell fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer y ddau grŵp o gleifion ac ar gyfer unrhyw offer arbenigol. Hefyd, dylai'r ystafell driniaeth gynnwys toiled *en-suite* i sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Dylai pob claf gael mynediad teg i wasanaethau gofal iechyd a dylai'r byrddau iechyd weithio i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion os oes ganddynt anghenion penodol yn sgil anabledd. Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd o hyd yw cynllunio sut y bydd gwasanaethau yn cael eu darparu yn ymarferol. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o gomisiynu ac adolygu gwasanaethau meddygon teulu yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion y boblogaeth breswyl yn cael eu diwallu.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.